EUR(2)-05-04(min)

# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cofnodion

**Dyddiad:** 27 Mai 2004

**Amser:** 9.00am

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

| **Aelodau** | Etholaeth |
|---|---|
| **Sandy Mewies (Cadeirydd)** | Llafur: Delyn |
| **Christine Chapman** | Llafur: Cwm Cynon |
| **Rhodri Morgan** | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| **Mike German** | Democrat Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru |
| **Christine Gwyther** | Llafur: Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| **Rhodri Glyn Thomas** | Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| **Ieuan Wyn Jones** | Plaid Cymru: Ynys Môn |
| **Lorraine Barrett** | Llafur: De Caerdydd a Phenarth |
| **Gwahoddedigion** | |
| **John Marek AC, y Dirprwy Lywydd** | Corff Rhyng-Seneddol Prydain Iwerddon |
| **Dai Lloyd AC** | Corff Rhyng-Seneddol Prydain Iwerddon |

| | |
|---|---|
| **Alun Cairns AC** | Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad |
| **Peter Kellam** | Rheolwr yr Uned Dramor, Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |
| **Sarah Thomas** | Ysgrifenyddiaeth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |

**Gwahoddedigion Sefydlog**

| | |
|---|---|
| **Jan Royall** | Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |
| **Rose D'Sa** | ECOSOC |
| **Janet Davies AC** | Pwyllgor y Rhanbarthau |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| **Gary Davies** | Pennaeth, Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| **Phillip Bird** | Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

| | |
|---|---|
| **Lara Date** | Clerc y Pwyllgor |
| **Bethan Williams** | Dirprwy Glerc Dros Dro y Pwyllgor |

**Eitem 1**

**Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau buddiant (9:00 - 9:10)**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Nick Bourne AC, Rosemary Butler AC a Jonathan Morgan AC. Roedd Lorraine Barrett AC yn dirprwyo ar ran Rosemary Butler AC. Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd oddi wrth y gwahoddedigion sefydlog Jill Evans ASE, Jonathan Evans ASE, Glenys Kinnock ASE, Eluned Morgan ASE ac Eurig Wyn ASE.

1.3. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiant o dan Reol Sefydlog 4.5.

1.4. Aeth y Cadeirydd ati i longyfarch Jan Royall ar gael ei phenodi'n arglwyddes, a diolchodd iddi am ei chyfraniad gwerthfawr at waith y Pwyllgor.

**Eitem 2**

**Cofnodion y cyfarfodydd diwethaf a materion sy'n codi (9:10 – 9:20)**

Papur: EUR(2) 04-04(min) - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill

2.1. Nodwyd bod y Pwyllgor wedi gofyn ym mharagraff 4.7 o'r cofnodion am fwy o wybodaeth ar y gwahaniaeth posibl yng nghyllideb Cymru o dan Fformiwla Barnett, pe bai cyllideb y CE fel cyfran o Incwm Gwladol Crynswth yr UE yn cael ei leihau i 1 y cant, pe bai arbedion Llywodraeth y DU yn cael eu gwario ar faterion domestig a phe bai'r dyraniadau eraill yn aros yr un peth.

2.2. Esboniwyd nad oedd y Comisiwn wedi pennu cyllideb derfynol eto, ond mae Llywodraeth y DU yn amcangyfrif mai €3 i €4 biliwn fyddai'r gost net i'r DU pe bai cynigion y Comisiwn yn cael eu gweithredu. Os byddai'r cyfraniad o 1.0% yn codi i 1.26%, mae'r Comisiwn yn amcangyfrif mai €25 biliwn (€3.5 biliwn y flwyddyn) fyddai cyfanswm y gost i'r DU, ac efallai y byddai'n rhaid ei dalu trwy gynyddu trethi neu wario llai mewn meysydd eraill. Gallai hyn gael effaith ar gyllideb Cymru.

2.3. Cytunwyd y byddai'n rhaid cael cyngor gan yr Is-adran Gyllid ac y byddai nodyn yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor gyda rhagor o fanylion. Yn amodol ar hyn, cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion.

**Gweithredu:**

- Byddai'r Pwyllgor yn cael nodyn yn rhoi mwy o wybodaeth ar y gwahaniaeth posibl yng nghyllideb Cymru o dan Fformiwla Barnett, pe bai cyllideb y CE fel cyfran o Incwm Gwladol Crynswth yr UE yn cael ei leihau i 1 y cant, pe bai arbedion Llywodraeth y DU yn cael eu gwario ar faterion domestig a phe bai'r dyraniadau eraill yn aros yr un peth.

2.4. Awgrymwyd bod dydd Iau 9 Rhagfyr yn ddyddiad posibl ar gyfer cyfarfod ym Mrwsel. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r dyddiad hwn yn eu dyddiaduron a hysbysu Clerc y Pwyllgor am unrhyw wrthdaro posibl. Byddai'r gwahoddedigion sefydlog hefyd yn cael eu hysbysu am y dyddiad hwn.

**Gweithredu:**

Byddai'r Pwyllgor yn rhoi gwybod i'r holl wahoddedigion sefydlog bod 9 Rhagfyr yn ddyddiad posibl ar gyfer cyfarfod ym Mrwsel.

2.5. Soniodd Christine Gwyther AC, Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, am y

datblygiadau diweddaraf o ran cydweithio â'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. Roedd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn cwrdd â Phwyllgor Dethol Ty'r Cyffredin ar Faterion Cymreig y prynhawn hwnnw ar gyfer y cyntaf mewn cyfres o gyfarfodydd ar y cyd i graffu ar y Mesur Trafnidiaeth drafft. Cafwyd rhai anawsterau wrth geisio mynd ati i gydweithio, gan gynnwys problemau'n ymwneud â braint, ond llwyddwyd i'w goresgyn. Cynhelir pedair sesiwn casglu tystiolaeth i gyd, ac un sesiwn derfynol i gwblhau'r adroddiad ar y cyd.

**Eitem 3**

**Adroddiad y Gweinidog (9:20 – 9:45)**

Papurau:

EUR(2) 05-04(p1) - Adroddiad y Gweinidog

EUR(2) 05-04(p2) - Adroddiad ar y gwaith paratoi ar gyfer yr Ewro

Cyflwynodd y Prif Weinidog ei adroddiad. Dyma'r prif bwyntiau a gododd:

3.1. Ymwelodd Arlywydd Gwlad Pwyl â Chymru ar ddechrau'r mis. Roedd yr Arlywydd wedi pwysleisio'r cysylltiadau diwylliannol cryf rhwng Gwlad Pwyl a'r DU gan sôn am Joseph Conrad (Korzeniowski), yr awdur Pwylaidd a dreuliodd amser yng Nghaerdydd. Yn ystod y seminar ddilynol rhwng Prydain a Gwlad Pwyl ar Ddiwygio Economaidd, cyfeiriodd Gwlad Pwyl at Gymru fel enghraifft dda o sut i weddnewid economi fel nad yw'n ddibynnol ar lo a dur. Dywedwyd bod hyn yn berthnasol i Silesia hefyd, lle maent yn gorfod delio â phroblemau fel tir diffaith halogedig, a sut i ddenu buddsoddiadau mawr a sicrhau bod Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) yn rhan o'r gadwyn gynhyrchu.

3.2. Roedd saith Aelod o'r Cynulliad wedi bod yn bresennol yn y Fforwm Cydlyniant Economaidd a Chymdeithasol ar 10-11 Mai, gan gynnwys pump o aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Nodwyd bod cynrychiolwyr ffederal yr Almaen wedi gwrthwynebu polisi'r Comisiwn ar ddiwygio rhanbarthol, ond bod sawl gwlad arall o blaid y polisi. Llofnodwyd datganiad yn cefnogi'r polisi gan 14 rhanbarth yr 'Effaith Ystadegol' (gan gynnwys Cymru) ym mis Mawrth 2004. Soniwyd am y posibilrwydd o daro bargen ar bolisi rhanbarthol yn ystod Llywyddiaeth Prydain ar y Cyngor Ewropeaidd yn ail hanner 2005. Efallai y bydd angen i lefel cyfraniad Incwm Gwladol Crynswth yr UE fod yn fwy na 1% yn y tymor hir, ond nid oedd modd dweud faint fyddai'n cael ei neilltuo ar gyfer dibenion penodol nes bod y Safbwynt Ariannol wedi'i gwblhau.

3.3. Cafodd trefnwyr y digwyddiad yn Nhy Tredegar, Casnewydd eu llongyfarch - bu'n lleoliad gwych ar gyfer llofnodi'r Memorandwm Dealltwriaeth gyda Latfia ar 13 Mai.

3.4. Cynrychiolwyd y Cynulliad Cenedlaethol ar lefel swyddogol yng nghyfarfod Cyd-Bwyllgor y

Gweinidogion (JMC Ewrop) a gynhaliwyd i drafod effaith y dyfarniadau cyfreithiol newydd ar Gyfarwyddeb Oriau Gwaith yr UE. Nodwyd y byddent yn effeithio ar ddoctoriaid iau yn arbennig, ond nad oedd modd rhoi'r dyfarniadau cyfreithiol newydd ar waith tan fis Awst. Felly, roedd posibilrwydd y gallai proffesiynau gymryd camau cyfreithiol yn y cyfamser. Dywedodd Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru bod y Comisiwn wedi cyflwyno dogfen i'r holl bartneriaid cymdeithasol yn eu hannog i benderfynu a ydynt am dynnu allan a phennu'r cyfnod a ddefnyddir i gyfrifo wythnos 48 awr arferol. Os na chafwyd trafodaeth am nad oedd consensws ymhlith y partneriaid cymdeithasol, byddai'r Comisiwn yn cyflwyno cynigion newydd ar y Cyfarwyddeb Oriau Gwaith. Byddai'r Pwyllgor yn cael y newyddion diweddaraf am y trafodaethau ynghylch y Gyfarwyddeb yn y cyfarfod nesaf.

3.5. Nododd y Pwyllgor bod Dirprwy Brif Weinidog y DU wrthi'n sefydlu grwp gorchwyl ar gysylltiadau rhwng y DU a Tsieina, a gofynnodd am fwy o wybodaeth am hyn. Nododd y Prif Weinidog y byddai hefyd yn cynnal ymweliad fasnach â Tsieina ym mis Medi 2004. Roedd galw mawr yn Tsieina am ddeunyddiau sylfaenol fel mwyn haearn a glo colsio ar gyfer ei sector gweithgynhyrchu cryf, a allai gael effaith ar y farchnad rynglwadol ar gyfer cynhyrchion o'r fath.

### Gweithredu:

- Byddai'r Pwyllgor yn cael mwy o wybodaeth am y grwp gorchwyl ar gysylltiadau rhwng y DU a Tsieina dan arweiniad y Dirprwy Brif Weinidog.
- Byddai'r Pwyllgor yn cael y newyddion diweddaraf am y trafodaethau ynghylch y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith yn ei gyfarfod nesaf.

Cyflwynodd Phillip Bird adroddiad ar y gwaith paratoi ar gyfer yr ewro. Dyma'r prif bwyntiau a gododd yn ystod y drafodaeth:

3.6. Roedd y gwaith paratoi yn parhau trwy gyfrwng y Pwyllgor Paratoi ar gyfer yr Ewro (WEPC) ac adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gofynnwyd i bob adran yn Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried goblygiadau cyfnewid i'r ewro, yn ogystal â sawl thema drawsbynciol. Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn cael cymorth oddi wrth Tryslorlys Ei Mawrhydi i wneud y gwaith. Byddai'r Pwyllgor yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith paratoi ar gyfer yr ewro. Roedd swyddogion yn dal wrthi'n llunio cynllun cyfnewid mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd Trysorlys y DU yn gobeithio cwblhau fersiwn diweddaraf y Cynllun Cyfnewid Cenedlaethol erbyn diwedd 2004. Os penderfynir ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf i fwrw ymlaen â refferendwm ar yr ewro, ac wedyn os penderfynir mynd i mewn i ardal yr ewro, y dyddiad cynharaf ar gyfer gwneud hyn fyddai Ebrill 2008.

3.7. Soniodd y Pwyllgor am fentrau bach a chanolig (BBaChau) a'r posibilrwydd y gallent gael eu hynysu pe bai'n rhaid cyfnewid i'r ewro. Dywedwyd y byddai rhai BBaChau (fel busnesau yn y sector twristiaeth) yn fwy parod nag eraill ar gyfer unrhyw gyfnewid allai ddigwydd. Nododd y Pwyllgor enghraifft Cyngor Sir Penfro, a oedd wedi rhoi grantiau i siopau i newid eu tiliau yn barod ar gyfer yr ewro, a dywedodd yr hoffai weld mwy o enghreifftiau fel hyn. Dywedodd y Prif Weinidog hefyd y dylid ymdrin â'r broblem yn llawn os penderfynir cyfnewid, a fyddai'n digwydd dros gyfnod o 36 mis (4 mis

o'r penderfyniad i gynnal refferendwm, 30 mis ar gyfer y cyfnod cyfnewid ar ôl cynnal refferendwm a 2 fis ar gyfer cylchredeg y ddau fath o arian ochr yn ochr â'i gilydd).

### Eitem 4

### Craffu ar Ddeddfwriaeth Ewropeaidd (9:45 – 10:00)

Papur: EUR(2)-04-04(03) - Rhestr o Ddeddfwriaeth Ewropeaidd

4.1. Dywedodd y Pwyllgor bod cyfle i roi sylwadau ar COM (2004) 327, Papur Gwyrdd ar Bartneriaethau Cyhoeddus Preifat (PPP), a allai gael ei ystyried gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth hefyd. Roedd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 30 Gorffennaf. Nodwyd hefyd bod cysylltiad rhwng y Papur Gwyrdd hwn a phapur gan y Comisiwn ar wasanaethau sydd o fudd cyffredinol, a gellir eu hystyried gyda'i gilydd.

4.2. Roedd Rose D'Sa o ECOSOC yn cytuno, a dywedodd y byddai'n ddefnyddiol hefyd i ystyried COM (2004) 256 (Bwrdd Sgorio Cymorth y Wladwriaeth) ochr yn ochr â'r ddau gynnig arall ar gymorth y wladwriaeth nad yw'r Comisiwn wedi'u cyhoeddi eto. Roedd y cyntaf yn cynnig fframwaith newydd ar gyfer asesu cymorth y wladwriaeth heb effeithio'n ormodol ar fasnach rhyngwladol, ac roedd yr ail yn cynnig fframwaith ar gyfer symiau llai o gymorth y wladwriaeth. Gyda'i gilydd, byddent yn rhoi llawer mwy o hyblygrwydd i awdurdodau o ran cyflwyno cynlluniau ar gyfer cael cymorth y wladwriaeth. Nodwyd mai €100,000 yw'r terfyn 'de minimis' ar gymorth y wladwriaeth ar hyn o bryd, ond gellir ei gynyddu i €1 miliwn pe bai'r cwmnïau'n bodloni meini prawf penodol. Dywedodd y Pwyllgor y byddai hyn o ddiddordeb i Awdurdod Datblygu Cymru.

### Gweithredu:

- Byddai Rose D'Sa yn darparu nodyn briffio i Glerc y Pwyllgor ar faterion yn ymwneud â cymorth y wladwriaeth, er mwyn ei ddosbarthu i'r Aelodau wrth iddynt ystyried Cymorth y Wladwriaeth, Partneriaethau Cyhoeddus Preifat a nwyddau o fudd cyffredinol. Byddai Des Clifford yn Swyddfa Llywodraeth y Cynulliad ym Mrwsel hefyd yn cael copi o'r nodyn.
- Byddai Clerc y Pwyllgor yn ystyried sut i gynnwys trafodaeth ynghylch y dogfennau ar Bartneriaethau Cyhoeddus Preifat, Cymorth y Wladwriaeth a Nwyddau o Fudd Cyffredinol yn agenda'r cyfarfod ar 1 Gorffennaf, a chael adborth gan Bwyllgorau eraill y Cynulliad ar eu trafodaethau hwy ynghylch y dogfennau hyn.

### Eitem 5

### Cyflwyniad gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (10:00 - 10:10)

5.1. Rhoddodd Ann Jones AC drosolwg o rôl materion Ewropeaidd yng ngwaith y Pwyllgor

Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd cylch gwaith y Pwyllgor yn cwmpasu llywodraeth leol, rhoi gwasanaethau ar waith yn strategol a Chynllun Gofodol Cymru, ac roedd llawer ohono'n debyg i waith y pwyllgorau eraill.

5.2. Esboniodd Ann Jones AC nad oedd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi craffu ar unrhyw ddeddfwriaeth Ewropeaidd eto, ond roedd wedi ystyried goblygiadau'r newidiadau i'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith yn ei gyfarfod ar 25 Chwefror 2004 ar gais y Pwyllgor Ewropeaidd. Yn ei gyfarfod diwethaf ar 19 Mai 2004, roedd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ystyried mabwysiadu protocol ar gyfer ystyried deddfwriaeth yr UE, a byddai'n ystyried y mater ymhellach yn ei gyfarfod nesaf. Rhagwelir y byddai am gadw'r cysylltiad â'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a chyfrannu mwy at y gwaith o graffu ar ddeddfwriaeth yr UE.

5.3. Diolchodd y Pwyllgor i Ann Jones a chroesawu'r camau a gymerwyd gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried materion Ewropeaidd yn ei waith.

## Eitem 6

## Y diweddaraf gan aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau a'r ASEau (10:10 - 10:25)

6.1. Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor bu Janet Davies yn un o gyfarfodydd y Comisiwn ar Gydlyniant Tiriogaethol (COTER) a threuliodd ddiwrnod yng nghyfarfod y Fforwm Cydlyniant. Yng nghyfarfod COTER, treuliwyd y rhan fwyaf o'r amser yn trafod y 3ydd Adroddiad Cydlyniant, ond treuliwyd y rhan olaf o'r cyfarfod yn trafod eu safbwynt drafft ar awyrennau rhanbarthol cost isel. Dywedodd Janet Davies AC mai dim ond cyfeiriad cryno a gafwyd yn y datganiad at ddatblygu cynaliadwy ac nad oedd diffiniad ohono. Roedd y cynadleddwyr eraill yn rhannu ei phryderon a byddai'n mynd ati i drafod gyda Rosemary Butler AC sut i fynd ati i gyflwyno gwelliant i'r datganiad barn. Cafodd y drafodaeth ei chymhlethu pan ystyriwyd y dyfarniad cyfreithiol ynghylch Ryanair a maes awyr Charleroi. Nodwyd nad oedd y Comisiwn yn bwriadu atal Cymorth y Wladwriaeth ym mhob maes awyr rhanbarthol o ganlyniad i hynny.

6.2. Nododd Janet Royall, Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, y byddai etholiadau'r Senedd Ewropeaidd wedi digwydd erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 1 Gorffennaf. Mae'n bosibl y bydd cyfansoddiad newydd wedi'i sefydlu a'r Comisiynwyr newydd wedi'u dewis erbyn hynny. Ar hyn o bryd roedd llawer o fynd â dod yn digwydd yn y Comisiwn gyda Chomisiynwyr newydd y Polisi Rhanbarthol a Materion Cymdeithasol yn cychwyn yn eu swyddi. Ond roedd Janet Royall yn disgwyl y byddai strwythur y Comisiwn yn eithaf sefydlog erbyn 1 Tachwedd 2004.

6.3. Nodwyd gwaith da'r BBC i godi ymwybyddiaeth am etholiadau'r UE. Serch hynny nid oedd y cyhoedd mor ymwybodol ag y gallent fod am ddigwyddiadau'r UE. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth y Cynulliad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru barhau i gydweithio er mwyn codi ymwybyddiaeth am faterion Ewropeaidd yng Nghymru.

6.4. Dywedodd Janet Royall y byddai'n rhaid iddi adael ei swydd bresennol ganol mis Medi ond ei bod yn bwriadu parhau i gydweithio â'r Aelodau i godi ymwybyddiaeth am faterion Ewropeaidd yn y dyfodol. Nodwyd bod cryn oedi wedi digwydd yn y gorffennol cyn penodi i'w swydd bresennol, ac oherwydd bod Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yn Llundain yn gadael hefyd y byddai swydd wag arall yn y DU. Mae'n debyg y byddai'n cymryd tan fis Hydref i gwblhau proses benodi fewnol, ac os na fydd ymgeisydd addas wedi'i benodi erbyn hynny byddai proses recriwtio allanol yn cael ei chynnal. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn ysgrifennu at y Comisiwn i fynegi eu gobaith y byddai'r swydd yn cael ei llenwi cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi'r oedi a gafwyd yn y gorffennol.

Pwyntiau Gweithredu: Byddai'r Pwyllgor yn ysgrifennu at y Comisiwn i ofyn iddynt ymdrechu i lenwi swydd Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru cyn gynted â phosibl.

Egwyl 10:30 - 10:45

**Eitem 7**

**Y diweddaraf ar waith Corff Rhyng-Seneddol Prydain Iwerddon (10:45 – 11:10)**

Papur: EUR(2)-05-04(05) – Corff Rhyng-Seneddol Prydain Iwerddon (BIIPB)

7.1. Roedd John Marek AC, y Dirprwy Lywydd, Dai Lloyd AC a Peter Kellam yn bresennol. Cyflwynodd y Dirprwy Lywydd y papur. Y prif bwyntiau a godwyd yn y drafodaeth oedd:

- Er nad oedd pleidiau Unoliaethol Gogledd Iwerddon yn aelodau llawn o'r BIIPB ar hyn o bryd, roedd gwaith yn parhau gydag is-bwyllgorau'r BIIPB. Roedd rhai o'r rhain wedi cynnal trafodaethau â'r Unoliaethwyr, ac yn cydweithio â hwy mewn rhai meysydd polisi. Trefniant anffurfiol oedd hwn a nododd y Pwyllgor mai'r pleidiau Unoliaethol eu hunain ddylai benderfynu p'un a i ymuno â'r BIIPB ai peidio.
- Nododd y Pwyllgor fod Pwyllgorau'r BIIPB wedi trafod rhai meysydd sy'n gyffredin rhyngddynt, gan gynnwys y polisi iechyd mewn ardaloedd gwledig. Roedd rhai problemau'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd yn berthnasol i Weriniaeth Iwerddon a Chymru. Am y tro cyntaf, roedd Gweriniaeth Iwerddon yn cael problem i recriwtio staff i'r gwasanaeth iechyd ac yn edrych ar Gymru wrth chwilio am ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem. Nodwyd bod cysylltiad Cymru â'r BIIPB yn gyfle i ganolbwyntio ar feysydd sy'n gyffredin i'r holl weinyddiaethau datganoledig, a gallai helpu i sefydlogi a normaleiddio proses seneddol Iwerddon.
- Cynhelir cyfarfod nesaf y BIIPB yng Nghas-gwent yn Hydref 2004. Dyma'r tro cyntaf iddo gael ei gynnal yng Nghymru ers datganoli. Byddai'r Aelodau'n cael eu gwahodd i ginio yng nghwmni'r Cynulliad yn y cyfarfod yng Nghas-gwent. Byddai aelodau'r BIIPB yn mynd i gyfarfod o'r pwyllgor llywio yn Nulyn ym mis Mehefin, a byddai agenda cyfarfod Cas-gwent yn

cael ei phennu yn y cyfarfod hwn. Gofynnodd Dai Lloyd AC a John Marek AC i Aelodau'r Pwyllgor awgrymu eitemau ar gyfer yr agenda i'w cyflwyno i'r pwyllgor llywio. Awgrymwyd yr eitemau canlynol fel materion sy'n gyffredin i'r carfanau dan sylw:

- Deddf Cadwraeth Forol ar gyfer y DU (i gydfynd â deddfwriaeth forol y Weriniaeth, ac yn gysylltiedig â chyllid Ewropeaidd a rhyngranbarthol ar gyfer mesurau cadwraeth forol a gwrth-lygredd).
- Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus
- Cysylltiadau trafnidiaeth rhwng gwahanol rannau o'r DU a ledled Cyfandir Ewrop, gan gynnwys defnyddio gwahanol ddulliau o gludo nwyddau.

7.2. Cytunwyd bod y drafodaeth wedi bod yn ddefnyddiol iawn a byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o adborth ac adroddiadau ar waith diweddaraf y BIIPB.

**Pwyntiau gweithredu:**

- Byddai Peter Kellam yn dosbarthu'r manylion ynghylch cyfarfod y BIIPB yng Nghas-gwent i Aelodau'r Cynulliad yn gofyn am ragor o eitemau ar gyfer yr agenda. Wedyn, byddai eu hawgrymiadau'n cael eu cyflwyno i Bwyllgor Llywio'r BIIPB.

## Eitem 8

## Y Diweddaraf ar Waith Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (11:10 – 11.30)

Papur: EUR(2)-05-04(04) - Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad

8.1. Cafwyd adroddiad gan Alun Cairns AC, Cadeirydd Cangen Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) yng Nghymru am waith diweddar y Gymdeithas. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Griffiths AC a Jocelyn Davies AC, a oedd hefyd yn cyfrannu'n gyson at waith Cangen y Gymdeithas yng Nghymru.

8.2. Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth am y CPA. Prif bwrpas y CPA oedd hybu gwybodaeth a dealltwriaeth am ddemocratiaeth seneddol. Roedd holl Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o'r CPA.
- Nodwyd bod gan y CPA dri phrif nod ar gyfer Cymru. Roedd yn caniatáu i Gymru godi ei phroffil, yn arbennig am mai Cymru oedd y cyntaf o blith rhanbarthau datganoledig newydd y DU i gyfrannu at waith y CPA. Yn ogystal, roedd yn golygu y gallai Cymru gychwyn cefnogi'r cenhedloedd sy'n datblygu o fewn y CPA. Roedd hefyd yn rhoi Cymru mewn sefyllfa i allu datblygu meysydd sy'n gyffredin iddi hi a rhanbarthau eraill y Gymdeithas. Er enghraifft, pan

gynhaliodd y Cynulliad Gynhadledd Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir yn 2002 cafwyd dadl yn y Gynhadledd ar ddatblygu cynaliadwy, yn arbennig rheoli gwastraff a thirlenwi. Roedd y pynciau hyn yn berthnasol i'r holl ranbarthau a oedd yn bresennol.
- Roedd datblygu cysylltiadau diwylliannol yn bwysig ac mae plant ysgol wedi bod yn cyfrannu at waith y Senedd Ieuenctid a digwyddiadau ar gyfer Diwrnod y Gymanwlad. Roedd cyllid i ganiatáu i blant o bob rhan o Gymru fod yn rhan o'r digwyddiadau yn cael ei groesawu.
- Nodwyd bod y Cynulliad ar flaen y gad gyda llawer o'i fentrau, yn arbennig yn y ffordd yr oedd yn defnyddio technoleg yn y Siambr. Soniodd Prif Weinidog Maleisia am hyn yn ddiweddar yn ogystal â'r cydbwysedd rhwng y rhywiau. Roedd y Pwyllgor yn croesawu camau i ymgyrchu dros well cydbwysedd rhwng y rhywiau ar fwrdd gweithredol y Gymdeithas.
- Nodwyd y byddai adroddiad gan Glerc y Cynulliad ar hyrwyddo democratiaeth yn dilyn ei ymweliad â chynhadledd y CPA yn Zanzibar ar gael ar fewnrwyd y CPA. Roedd Christine Gwyther AC yn cadeirio grwp ar ddemocratiaeth o ran y rhywiau yng Nghymru a dywedodd yr hoffai drafod y pwnc gyda changen y CPA yng Nghymru.
- Byddai ysgrifenyddiaeth y CPA yng Nghymru yn ystyried sut i sicrhau bod adroddiadau'r CPA ar gael yn ehangach. Hwyrach y byddai modd anfon adroddiadau perthnasol at bwyllgorau'r Cynulliad a rhoi rhywfaint o'r wybodaeth sydd ar y fewnrwyd ar y rhyngrwyd.

### Pwyntiau Gweithredu:

- Ysgrifenyddiaeth y Gymdeithas i ystyried sut i fynd ati i ddarparu adroddiadau'r Gymdeithas i bwyllgorau perthnasol y Cynulliad.

### Eitem 9

### Cynigion i Graffu ar Faterion Ewropeaidd yn Nhy'r Cyffredin (11.30 - 12.00)

Papur: EUR(2)-05-04(06) - Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Craffu Ewropeaidd Ty'r Cyffredin.

9.1. Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r cynigion yn y papur a pwysleisiodd bod angen i'r Pwyllgor gyflwyno ei safbwyntiau i'r Pwyllgor Dethol ar Foderneiddio Ty'r Cyffredin erbyn 2 Mehefin, er mwyn iddynt gael eu hystyried yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor i faterion yn ymwneud â chraffu Ewropeaidd. Croesawodd y Pwyllgor y cynnig i gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gweinyddiaethau datganoledig eraill ar 'Uwch Bwyllgor Ewropeaidd' i graffu ar faterion Ewropeaidd. Roedd y cyfle i gyfrannu mwy at y broses o graffu ar faterion sy'n gyffredin rhyngddynt yn cael ei groesawu.

9.2. Nododd y Pwyllgor na fyddai aelodau'r Pwyllgor arfaethedig yn gorfod pleidleisio, dim ond trafod. Nododd yr Aelodau hefyd na fyddai'r Pwyllgor arfaethedig yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â sybsidiaraeth, ond byddai'r mater yn cael ei drafod ar wahân o fewn system graffu Ewropeaidd ehangach Ty'r Cyffredin, yn amodol ar ganlyniad y trafodaethau ar gytundeb drafft yr UE.

9.3. Roedd yr Aelodau'n awyddus i wybod mwy am natur y 'gynrychiolaeth' ar y Pwyllgor arfaethedig.

Gofynnwyd ai swyddogaeth graffu seneddol yn unig fyddai gan y Pwyllgor, neu a fyddai'n ystyried materion Ewropeaidd o safbwynt ehangach. Nododd y Prif Weinidog nad y cynigion yn esbonio beth fyddai cyfraniad Gweinidogion y Cabinet ac a fwriadwyd cael cynrychiolaeth o'r meinciau blaen yn ogystal â'r meinciau ôl. Roedd yr Aelodau'n cydnabod mai penderfyniad Ty'r Cyffredin fyddai union natur y Pwyllgor arfaethedig.

9.4. Byddai llythyr yn cael ei anfon at y Pwyllgor Dethol ar Foderneiddio Ty'r Cyffredin yn mynegi barn yr Aelodau, a byddai Pwyllgor Busnes y Cynulliad hefyd yn cael gwybod am y cynnig.

### Pwyntiau gweithredu:

- Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gwir Anrh. Peter Hain AS, Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Foderneiddio Ty'r Cyffredin, yn cefnogi cynnig y Pwyllgor Craffu Ewropeaidd i gael cynrychiolaeth o'r Cynulliad ar y Pwyllgor Dethol newydd ar faterion Ewropeaidd, ac yn gofyn iddynt esbonio beth fydd natur y Pwyllgor. Byddai copi o'r llythyr yn cael ei anfon at Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Ewropeaidd.
- Byddai'r Pwyllgor Busnes yn cael ei hysbysu am y cynnig a gyflwynwyd i gael cynrychiolaeth o'r Cynulliad arno.